| CYNGOR CYMUNED LLANGRANNOG<br><br>CYNLLUN IAITH GYMRAEG | | LLANGRANNOG COMMUNITY COUNCIL<br><br>WELSH LANGUAGE SCHEME |
|---|---|---|
| Mae Cyngor Cymuned Llangrannog wedi mabwysiadu’r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg â’r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae’r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor Cymuned yn gweithredu’r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd. | **1** | Llangrannog Community Council has adopted the principle that in the conduct of public business in Wales it will treat Welsh and English on a basis of equality. This scheme sets out how the Community Council will implement that principle in the provision of services to the public, |
| Mae’r Cyngor Cymuned yn cydnabod y gall aelodau’r cyhoedd fynegi eu barn a’u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio’u dewis iaith ac y gall gwadu’r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Cyngor felly yn cynnig i’r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i’w ddefnyddio wrth ymdrin ag ef. | **2** | The Community Council recognises that members of the public can express their views and needs better in their preferred language, that enabling them to use their preferred language is a matter of good practice rather than a concession and that the denial of that right could place members of the public at a real disadvantage. The Community Council will therefore offer the public the right to choose which language to use in dealings with the Council. |
| Nod y Cyngor Cymuned mewn perthynas â’r Cynllun hwn yw:<br><br>• galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth neu drafod gyda’r Cyngor neu’n cyfrannu at y broses ddemocrataidd i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn.<br>• hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg yn y gymuned. | **3** | In relation to this Scheme, the Community Council aims:<br><br>• to enable everyone who receives or uses the Council’s services or contributes to the democratic process to do so through the medium of Welsh or English, according to personal choice.<br>• to encourage the use of the Welsh language in the community. |
| Ymhlith prif ddyletswyddau’r Cyngor Cymuned mae:<br><br>• ystyried materion cynllunio;<br>• awgrymu gwelliannau yn ymwneud â phriffyrdd;<br>• cydweithio â’r heddlu i ddiogelu’r gymuned;<br>• rhoi cymorth ariannol i nifer o fudiadau gwirfoddol ac elusennol;<br>• gofalu am seddau eistedd a byrddau arddangos cyhoeddus;<br>• penodi cynrychiolwyr ar nifer o gyrff lleol ac allanol. | **4** | Amongst the Community Council’s main duties are:<br><br>• consider planning matters;<br>• suggest improvements regarding highways;<br>• work with the police to safeguard the community;<br>• provide financial assistance for various voluntary organisations and charities;<br>• look after public seating and notice boards;<br>• appoint representatives to numerous local and outside bodies. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae gan y Cyngor Cymuned 10 aelodau etholedig, ac mae'r Clerc yn gweithio'n *rhan* amser. Mae'r Clerc a'r Cynghorwyr yn rhugl yn y Gymraeg.<br><br>Mae nifer o grwpiau cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd yr ardal. Mae'r Cyngor Cymuned yn gweithio i hyrwyddo datblygiadau cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol gan ymateb i anghenion lleol er mwyn gwella safonau byw yn yr ardal. | **5** | The Community Council has 10 elected members, and the Clerk works *part* time. The Clerk and Councillors are fluent Welsh speakers.<br><br>There are a number of social, cultural and community groups that play a prominent part in the life of the community. The Community Council is working to promote community development and social activities and respond to local needs to improve the living standards in the area. |
| **Polisïau a mentrau** | **6** | **Policies and initiatives** |
| Wrth lunio neu ystyried polisïau a mentrau newydd, bydd y Cyngor Cymuned yn:<br><br>• asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith;<br>• hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, ac yn symud yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn bob cyfle a ddaw;<br>• ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwriad fyddai'n effeithio ar y Cynllun hwn, neu Gynllun unrhyw gorff cyhoeddus arall. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb y Comisiynydd ymlaen llaw;<br>• sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisïau yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Cyngor o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;<br>• sicrhau y bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisïau a mentrau newydd ar waith.<br>• Pan ymgynghorir â'r Cyngor ar geisiadau cynllunio, bydd y Cyngor yn annog ymgeiswyr i godi arwyddion dwyieithog ar safleoedd megis swyddfeydd, busnesau a siopau ac archfarchnadoedd drwy gyfeirio at natur ieithyddol yr ardal.<br>• Pan ymgynghorir â'r Cyngor Cymuned ynglŷn ag enwau strydoedd, datblygiadau ac ystadau newydd bydd y Cyngor Cymuned yn cefnogi defnyddio enwau dwyieithog. | | In devising new policies and initiatives the Community Council will:<br><br>• assess their linguistic effect and ensure that they are consistent with the Welsh Language Scheme;<br>• promote and facilitate the use of Welsh wherever possible and will move closer to implementing the principle of equality fully at every opportunity;<br>• consult with the Welsh Language Commissioner in advance regarding proposals that will affect the scheme, or the scheme of any other public body. The scheme will not be altered without the Commissioner's agreement;<br>• ensure that those involved in formulating policy will be aware of the Scheme, and of the Council's responsibilities under the Welsh Language Act 1993 and the Welsh Language (Wales) Measure 2011;<br>• ensure that the measures contained in the Scheme are applied to new policies and initiatives when they are implemented.<br>• When the Council is consulted on planning applications, the Council will encourage applicants to erect signs bilingually in locations such as offices, businesses and shops and supermarkets by referring to the linguistic nature of the area. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • When the Community Council is consulted on the naming of streets, developments and new estates, the Community Council will support the use of bilingual names. |
| **Safonau ansawdd** | **7** | **Standards of quality** |
| Bydd y Cyngor Cymuned yn darparu gwasanaeth o'r un safon uchel ac yr un mor brydlon yn y ddwy iaith. | | Services provided in English or Welsh will be of an equally high standard and equally prompt. |
| **Ymdrin â'r cyhoedd sydd yn siarad Cymraeg** | **8** | **Dealing with the Welsh-speaking public** |
| **Gohebu ysgrifenedig (post ac e-bost)**<br><br>• Bydd y Cyngor Cymuned yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.<br>• Ni fydd ateb gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn achosi oedi.<br>• Os derbynnir gohebiaeth yn y Gymraeg caiff ei ateb yn Gymraeg.<br>• Bydd gohebiaeth yn dilyn sgwrs ffôn neu wyneb yn wyneb neu gyfarfod lle sefydlwyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith person yn Gymraeg, er mae'n bosibl na chynhaliwyd y drafodaeth yn y Gymraeg.<br>• Dechreuir pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn ei dewis/ddewis iaith lle bo hynny'n hysbys. | | **Written communication (mail and e-mail)**<br><br>• The Community Council will welcome correspondence in either English or Welsh.<br>• Correspondence through the medium of Welsh will not in itself lead to any delay.<br>• Every letter received in Welsh will be answered in Welsh.<br>• All correspondence following a telephone or face-to-face conversation in Welsh, or a meeting where it was established that Welsh is the preferred language of the person, although the discussion may not have been held through the medium of Welsh, will be in Welsh.<br>• All correspondence with a member of the public will be initiated in his/her preferred language if known. |
| **Cyfathrebu dros y ffôn** | **9** | **Telephone calls** |
| Mi fydd unrhyw alwad ffôn yn cael ei ateb yn yr iaith sy'n briodol i'r galwr. | | Telephone calls will dealt with in the language appropriate to the caller. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor Cymuned** | **10** | **Public meetings organised by or on behalf of the Community Council** |
| • Croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor Cymuned. Gwneir hyn yn glir yn y papurau sy'n galw neu'n hysbysebu'r cyfarfod.<br>• Bydd unrhyw gyfarfod cyhoeddus a gynullir i drafod y Gymraeg, addysg Gymraeg, treth y Cyngor neu wybodaeth am etholiad/isetholiad lleol yn ddwyieithog.<br>• Bydd pob cyhoeddusrwydd am gyfarfod cyhoeddus o'r fath yn ddwyieithog.<br>• Os yw'n hysbys ar gychwyn y cyfarfod bod pawb sy'n bresennol yn siarad Cymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg.<br>• Bydd unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig megis taflenni neu sleidiau sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog. | | • Contributions are welcomed in either Welsh or English at public meetings held by the Community Council. This will be stated clearly in the notices that inform or publicise the meeting.<br>• Any public meeting that is held to discuss the Welsh Language, Welsh medium education, Council Tax or any information regarding local elections/by-elections will be bilingual.<br>• All publicity for public meetings will be bilingual.<br>• If it is evident at the beginning of a meeting that all those present speak Welsh, the meeting will be held in Welsh.<br>• Any written materials such as leaflets or slides that are used in public meetings will be bilingual. |
| **Cyfarfod arferol y Cyngor Cymuned** | **11** | **Ordinary Community Council meetings** |
| • Mae cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn cael eu cynnal yn y Gymraeg.<br>• Bydd pob hysbysiad a Rhaglen o gyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn ddwyieithog.<br>• Bydd y cofnodion yn ddwyieithog . | | • The Community Council's meetings are conducted in Welsh.<br>• The notice and Agenda for the Community Council's meetings will be bilingual.<br>• The minutes will be bilingual. |
| **Cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd** | **12** | **Face-to-Face meetings with the public** |
| Bydd y Cyngor Cymuned yn croesawu cyfarfodydd wyneb-yn - wyneb gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg ond mae gan pawb yr hawl i drafod yn eu iaith dewisol. | | The Community Council welcomes face to face meetings with the public in Welsh or English but everyone has the right to discuss matters in their preferred language. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Hunaniaeth gorfforaethol** | **13** | **Corporate identity** |
| • Bydd enw'r Cyngor Cymuned yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.<br>• Yng nghyd-destun gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd bydd materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, addysg Gymraeg, Treth y Cyngor a gwybodaeth am etholiad/isetholiad lleol yn ddwyieithog.<br>• Bydd hysbysebion a hysbysiadau y Cyngor Cymuned - i'w gosod yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu mewn unrhyw gyfrwng arall, sydd yn ymwneud â'r Gymraeg, addysg Gymraeg, Treth y Cyngor, a gwybodaeth am etholiad/isetholiad lleol yn ddwyieithog.<br>• Bydd hysbysebion swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg/dwyieithog ac yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg gyda throednodyn yn Saesneg.<br>• Pan ddaw swydd y Clerc yn wag bydd y Cyngor Cymuned yn ei hysbysebu gan nodi fod sgiliau dwyieithog yn dymunol er mwyn i'r Cyngor allu cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. | | • The Community Council's name is to be in Welsh or Welsh and English.<br>• Advertising and publicity activities dealing with the Welsh language, Welsh medium education, Council tax, information about local elections/by-elections will be bilingual.<br>• Community Council advertisements and notices dealing with the Welsh language, Welsh medium education, Council tax, information about local elections/by-elections – to be placed in the press, on notice boards or any other medium will be bilingual.<br>• Job advertisements will appear bilingually in English/bilingual publications and in Welsh only in Welsh language publications with a footnote in English.<br>• When the Clerk's post becomes vacant it will be advertised confirming that bilingual skills will be desirable so that the Community Council can offer a bilingual service to the public. |
| **Gwasanaethau a ddarperir gan drydydd parti** | **14** | **Services provided by a third party** |
| • Bydd unrhyw drefniadau a wneir gan y Cyngor Cymuned i ddefnyddio trydydd bartïon i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar ei ran yn cydymffurfio â gofynion penodol y Cynllun fel a amlinellwyd gan y Cyngor Cymuned. Bydd y Cyngor Cymuned yn nodi pa fesurau perthnasol o'r Cynllun y bydd angen i'r trydydd parti gydymffurfio â nhw yn y manylebau tendro neu gontract.<br>• Bydd angen i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r mesurau perthnasol o'r Cynllun trwy lythyr | | • Any arrangements made by the Community Council to use a third party to deliver services to the public on its behalf will comply with the specific requirements in the Scheme as outlined by the Community Council. The Community Council will outline which relevant measures in the Scheme the third party will have to adhere to within the tendering or contract specifications.<br>• The Third party will need to confirm that it has complied with the relevant aspects of the Scheme by letter. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Trefniadau gweinyddol a monitro** | **15** | **Administrative arrangements and monitoring** |
| • Mae gan y Cynllun hwn gefnogaeth lawn y Cyngor.<br>• Y Clerc fydd yn gyfrifol am weithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor Cymuned.<br>• Yn ôl y galw bydd y Clerc yn sicrhau bod canllawiau a chyfarwyddiadau ar gael i bawb sydd yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun.<br>• Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun.<br>• Bydd y Cyngor Cymuned hefyd yn gwahodd trigolion Cymraeg yr ardal i gynnig eu barn am y gwasanaeth a sut y gellir ei wella, trwy gadw copi cyhoeddus o'r Adroddiad yn y man cyhoeddus.<br>• Bydd y Cyngor Cymuned yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun yn rheolaidd. | | • This scheme has the full support of the Community Council.<br>• The Clerk will be responsible for implementing the scheme on a day-to-day basis within the Community Council.<br>• According to need, the Clerk will ensure that guidelines and instructions will be available to all who are involved in the implementation of the scheme.<br>• Responsibility for monitoring the Scheme will rest with the Clerk of the Community Council.<br>• Also the Community Council will invite local Welsh speaking residents to offer their views on the service and how it could be improved, by placing a copy of the report in a public place.<br>• The Community Council will publicise the scheme regularly. |
| **Cwynion** | **16** | **Complaints** |
| Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun i sylw:<br><br>Sioned Davies, 13 Bro Gido, Gilfachreda, Ceredigion, SA45 9SR | | Any comments, complaints or suggestions regarding the scheme should be addressed to:<br><br>Sioned Davies, 13 Bro Gido, Gilfachreda, Ceredigion, SA45 9SR |
| **Adolygu** | **17** | **Review** |
| Bydd y Cyngor yn adolygu cynnwys y Cynllun hwn pob 3 blynedd. | | The Council shall review the contents of this Scheme every 3 years. |